## EDWARD DAVIES yn trafod Meddygaeth Nadredd

# A yw'r sarff yn cael ei beio ar gam?

MAE'N WIR nad neidr yw'r prydferthaf o'r anifeiliaid, ond tybed a yw'n haeddu ei hysgymuno i'r fath raddau fel bod cyfeirio at rywun fel 'yr hen sarff' yn sarhad o'r radd eithaf?

Mewn gwledydd Cristionogol roedd y neidr dan anfantais o'r cychwyn; oni ddywedodd Duw 'melltigedicach wyt ti na'r holl anifeiliaid, nac a holl fwystfilod y maes'?

Hi a feïr am holl broblemau dynoliaeth am iddi achosi cwymp Adda ac Efa yng ngardd Eden. Ond fe ddywed Thomas Charles mai Satan a ddewisodd y neidr i lefaru trwyddi. Ymddengys mai ar ddwydroed y daeth Satan allan o'r ardd oherwydd mae hen draddodiad ymhlith y Mohametaniaid fod garlleg wedi codi o'r ddaear lle gosododd ef ei droed dde gyntaf wedi iddo ddod allan o Eden, a bod nionyn wedi ymddangos lle gosododd ei droed chwith.

Tybed a oes lle i ddadl ddiwinyddol am degwch cosbedigaeth y neidr, a hithau ddim amgen nag erfyn diniwed?

Cydnabyddir cysylltiad nadredd â meddygaeth mewn arfbeisiau cymdeithasau meddygol, e.e. ein Cymdeithas Feddygol ni yng Nghymru a'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig, sy'n cynnwys ffon a neidr yn ei hamgylchynu.

Nid ffenomen fodern yw arfbeisiau o'r fath; nadredd yn cymhlethu oedd arfbais Ninnigizzida, un o dduwiau Sumeria. Edrychwyd ar Ninnigizzida fel cymar y Dduwies Fam Ddaear, a oedd yn cael ei delweddu fel Coeden y Bywyd.

Cysylltwyd Coeden y Bywyd â neidr dros fil o flynyddoedd cyn i Lyfr Genesis gael ei ysgrifennu, ac am lawer canrif ar ôl hynny darluniwyd hi wedi plethu am y Goeden i'w hamddiffyn.

Yn chwedloniaeth Groeg dwy neidr wedi cymhlethu oedd gwialen aur y duw Hermes. Ef oedd yn tywys eneidiau o'r byd hwn i'r byd arall, a gallai groesi'r ffin rhwng y ddau fyd fel y mynnai. Gan fod dolen gyswllt rhwng iechyd a marwolaeth gall fod delweddu neidr mewn meddygaeth wedi cychwyn yma.

* * *

ROEDD Asclepius gyda'r pwysicaf o dduwiau iechyd Groeg, ac adeiladwyd llawer o demlau iddo. Arferai nadredd melyn dof ymlwybro yn y temlau mewnol, a chwaraeasant ran bwysig mewn iacháu gan fod y cleifion yn eu cwsg yn amgyffred y neidr fel ymgorfforiad o'r Duw Asclepius ei hunan. Mae'r cerfluniau niferus o Asclepius sydd wedi goroesi bob amser yn cynnwys neidr.

Ni wyddom sut y daeth y neidr yn symbol bwysig ym meddygaeth Groeg, ond yr eglurhad mwyaf tebygol yw iddi darddu yng ngwareiddiad Minoa. Roedd datblygiad gwareiddiad Groeg yn ddyledus iawn i Minoa, ac roedd cwlt y sarff yn rhan bwysig o'r gyfundrefn grefyddol ar Ynys Creta.

Dywedir mai neidr wedi ei hanfon o deml Asclepius yn Epidaurus i Rufain yn 293 CC a fu'n llwyddiannus i atal pla dychrynllyd yn y ddinas ar y pryd.

Yn ôl Syr James Frazer arferai llwyth Nadredd yn y Punjab addoli nadredd, a phe baent yn darganfod un farw, gwisgent amdani a'i chladdu â defod. Cychwynnodd addoli neidr fel Duwies y Fam ddaear yn ystod yr Oes Gerrig Newydd. Mae chwedloniaeth Sumeria yn adrodd hanes Nammu, duwies neidr y dyfnder yn rhoi genedigaeth i'r nefoedd a'r ddaear. Darganfuwyd delwau o'r dduwies ar ffurf neidr ym Mesopotamia a Dyffryn yr Indus.

Gan fod yr India wedi ei gorchuddio â choed yn cynnwys llawer o nadredd gwenwynig, nid yw'n syndod fod llenyddiaeth feddygol gynnar Atharfa Veda, Shushutra a Charaka yn cynnwys cynifer o swynoglyddion i drin brathiadau.

Yr Hindu oedd y cyntaf i drin brath neidr drwy roi tourniquet ar ochr y galon o'r brathiad, a hefyd sugno allan y gwenwyn. Roedd sugno'r gwenwyn allan yn weithred arwrol mewn cyfnod oedd yn credu fod pob gwenwyn yn nerthol iawn.

Pan ddychwelodd milwyr Alecsander Fawr o'r India tua chanol y bedwaredd ganrif Cyn Crist adroddasant hanesion dychrynllyd am ymosodiadau gan nadredd, ac mae'n arwyddocaol i Alecsander gyflogi ffisigwyr Hindu i drin ei filwyr. Dichon na bu llawer o lwyddiant ar driniaethau y ffisigwyr Groegaidd.

* * *

MEWN NIFER o'i lythyrau cyfeiria Edward Lhuyd at fotwm neu lain neidr. Dargafnu nifer ohonynt yng Nghymru a'r Alban lle roeddynt yn cael eu defnyddio fel swynoglyddion. Mae'n eu disgrifio fel peli bychain o wydr wedi eu staenio, rhai a nadredd arnynt. Mae'n eu huniaethu â'r Wy Neidr (Ovum Anguinuum) y cyfeiriodd Pliny eto, ac a oedd yn cael ei ddefnyddio fel swynoglydd gan y Derwyddon.

Ni ddaeth ar draws un yn Iwerddon, ac mae Lhuyd yn egluro hyn drwy nodi nad oedd nadredd yn gyffredin yn Iwerddon yn y cyfnod hwnnw. Aiff Lhuyd rhagddo i ategu mai y grefft o wneuthur a staenio gwydr oedd Chymia a gyfieithwyd yn Gelfyddyd fferyllt gan Y Dr. John Davies, Mallwyd yn ei eiriadur.

Ysgrifennodd y diweddar Athro T.J. Morgan nodyn diddorol am faen magl neu glain neidr a ddaeth i'w feddiant, ac am y traddodiad iddo ddod i fodolaeth ar ôl i glwstwr o nadredd ymgynnull o gylch neidr farw a'i throi'n lain wrth boeri arni.

Dywed Yr Athro Morgan fod y glain yn cael ei roi ar lygad a'i droi nifer o weithiau ar ei wyneb, ac felly'n gwella llyfrithod.

Ni ellir amau fod brathiadau neidr yn gyffredin yn y gorffennol. Wrth fodio drwy'r llyfrau llysiau gwelwn fod nifer y cynghorion at eu trin yn dangos hynny'n amlwg.

Roedd anifeiliaid gwylltion yn reddfol yn defnyddio llysiau arbennig; dewis gafr ewig oedd cymryd dail fflamgoed (spurge), a'r blaidd yntau yn ffafrio llysiau'r neidr (bistort). Cred bugeiliaid yn rhanbarth Auvergne, De Ffrainc fod defaid sydd wedi pori ar fanadl (broom) yn dangos imiwnedd i frathiadau gwiber.

Mae banadl yn cynnwys sparteine, sylwedd tryloyw, seimlyd, chwerw ei flas, ac fe ddangosodd arbrofion yn y labordy fod sparteine sulffad yn dadwenwyno gwenwyn neidr. Enghraifft arall o wyddoniaeth yn cadarnhau cred gwerin!

* * *

ERBYN hyn darganfuwyd llysiau eraill ledled y byd sydd â llawer o dystiolaeth uniongyrchol iddynt allu dirymu gwenwyn neidr, er nad oes prawf pendant. Yng Ngogledd Amerig tyf gwraidd neidr (Aristochlia Serpentaria) a ddefnyddid gan yr Indiaid Cochion at frath neidr. Mae'n cynnwys asid aristinig ac mae'r un asid i'w gael mewn llysieuyn arall, Bragantia Wallichii, sy'n tyfu yng Ngorllewin India ac yn cael ei ddefnyddio i'r un pwrpas yn y wlad honno.

Roedd enwau llafar gwlad ar nifer o lysiau yn eu cysylltu â nadredd, un ai oherwydd eu ffurf neu am eu bod at drin brath neidr. Credai William Salesbury fod gwlyddyn Mair (scarlet pimpernel) yn gwella brath neidr, a hen enw Saesneg arno oedd Adder's Eyes.

Heddiw mae gwlyddyn Mair yn fwy adnabyddus fel llysiau'r cryman, enw a darddodd o'r arferiad o roi'r dail wedi eu cleisio ar glwyfau, yn enwedig clwyfau a achoswyd gan gryman.

Roedd Salesbury hefyd yn cymell hen ŵr (field Southernwood) neu lovaeds, ac mae'n cyfaddef 'ni wn i ddim ond cymbraeg venthig fel y mae Iethoedd eraill gan ei gilidd'. Alecsander yw'r gair Cymraeg am lovage a ddefnyddiwyd gan Dr.D.T. Jones ychydig dros ganrif yn ddiweddarach.

Y llysieuyn cyntaf a restrir yn Llyfr Dail y Dr.D.T. Jones, Llanllyfni yw Tafod y neidr (Adder's tongue), er mai at wella briwiau mewnol, anhwylderau y mislif, llygaid cochion a chlwyfau llidiog yr oedd yn ei argymell.

Mynnai Dr. Jones gymysgedd mwy cymhleth at drin brath neidr sef 'bom (balm), gwraidd cacamwcci (burdock), mintys, had neu wraidd Alecsander (lovage), cribau St Ffraid (wood betony), ysgaw Mai (dwarf elder), dail llyriaid, a rue y gerddi'.

Roedd dau o'r llysiau hyn, sef dail y llyriaid a ryw, yn cael eu cymeradwyo mewn llawysgrif Gymraeg arall ar ddiwedd yr 16 ganrif, (Y Welsh Leech Book). Cynghorir cymryd 'ellyried a ganwraidd felen (creeping cinquefoil) a halen ac ef a lad y gwenwyn', neu 'yfed y claf y mennyd ceiliog-coch ar ryw ar lefrith croew ne ar win gwyn ac iach fyd'.

Ceir yr un cyngor i gymryd ymennydd ceiliog coch mewn dau gyngor, un gyda ryw a'r llall gyda thafod yr hydd (hart's tongue) yn Llyfr Meddygon Myddfai.

Yr un yw ellyriaid neu erllyriad a llydan y ffordd sef dail llydain y ffordd (plantain, Plantago major). Roedd garlleg hefyd yn cael ei le mewn triniaeth brath neidr yn y llyfrau hyn. Nid oes ofod yma i drafod rhinweddau y planhigion hyn sydd yn parhau mewn iws.

* * *

SONIWYD eisoes am ran nadredd byw mewn meddygaeth, ond beth am eu defnydd fel cyffur wedi iddynt farw? Dywed Howel Feddyg, un o Feddygon Myddfai, fod croen neidr yn meddu deuddeg nodwedd oedd wedi eu profi gan Alphibam. (Mae'n debyg mai Alphanus, Esgob Salerno tua 1050 oedd hwn. Fe gyfieithodd lyfr Nemesius, Esgob Emesa Syria yn y 4edd i 5ed ganrif OC, ar Natur Dyn. Roedd y testun hwn yn ddylanwadol iawn yn y Canol Oesoedd.